# Canllawiau ar y gallu i olrhain, tynnu a galw bwyd yn ôl o fewn diwydiant bwyd y Deyrnas Unedig (DU)

Statws: Wedi dod i ben
Dyddiad lansio: 7 Ionawr 2019
Dyddiad cau: 4 Chwefror 2019

## Crynodeb o ymatebion

PDF
Gweld Crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad: Canllawiau ar y gallu i olrhain, tynnu a galw bwyd yn ôl (Saesneg yn unig) as PDF(Open in a new window) (660.4 KB)

## Yngl?n â'r ymgynghoriad hwn

Bydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb i:

- fusnesau bwyd
- awdurdodau gorfodi bwyd
- sefydliadau masnach
- sefydliadau defnyddwyr

### Pwnc ymgynghori

Pwnc yr ymgynghoriad hwn yw canllawiau sy'n cynorthwyo busnesau bwyd i gydymffurfio â chyfraith bwyd ac sy'n rhoi cyngor ac adnoddau ategol i helpu busnesau bwyd ac awdurdodau gorfodi bwyd i ddelio ag achosion o dynnu a galw bwyd yn ôl er diogelwch. Mae'r canllawiau yn amlinellu'r gofynion cyfreithiol ac yn cynnwys cyngor ar arfer gorau.

### Diben yr ymgynghoriad

Yn 2017, cynhaliwyd gwaith ymchwil i ddeall y systemau tynnu a galw bwyd yn ôl yn y DU. Roedd hyn yn cynnwys rhai argymhellion ar gyfer gwella. Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a Safonau Bwyd yr Alban, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol o'r diwydiant bwyd, awdurdodau gorfodi bwyd, sefydliadau defnyddwyr a chyrff masnach yn mynd i'r afael â'r argymhellion hyn. Mae hyn yn cynnwys datblygu canllawiau i gryfhau a gwella effeithiolrwydd a gwydnwch cyffredinol system tynnu a galw bwyd yn ôl y DU.

Nid oes unrhyw newidiadau wedi bod i'r polisi, yr wyddoniaeth na'r gyfraith.

Nod y canllawiau newydd yw:

- egluro rolau a chyfrifoldebau swyddogion allweddol sy'n rhan o'r system tynnu a galw bwyd yn ôl er diogelwch
- darparu canllawiau ar arfer gorau er mwyn helpu busnesau bwyd i wneud hysbysiadau galw bwyd yn ôl ar gyfer defnyddwyr yn fwy cyson a hygyrch
- helpu'r diwydiant i sicrhau bod cyfathrebu masnachol yn gyson ac yn effeithiol
- datblygu a gweithredu gweithdrefnau dadansoddi gwraidd y broblem ar gyfer y diwydiant os bydd digwyddiadau diogelwch bwyd

Mae'r canllawiau wedi'u datblygu gyda mewnbwn gan weithgorau â nifer o randdeiliaid gwahanol. Rydym ni wedi penderfynu bod ymgynghoriad 4 wythnos o hyd yn gymesur i geisio barn rhanddeiliaid ehangach.

Croesawn sylwadau gan randdeiliaid ar y canllawiau newydd hyn.

## Pecyn ymgynghori

### England, Northern Ireland and Wales

PDF
Gweld https://www.food.gov.uk/sites/default/files/media/document/llythyr-ymgynghoriad-galw-bwyd-yn-ol.pdf as PDF(Open in a new window) (509.62 KB)

### England, Northern Ireland and Wales

PDF
Gweld https://www.food.gov.uk/sites/default/files/media/document/consultation-draft-guidance-final.pdf as PDF(Open in a new window) (2.19 MB)

### England, Northern Ireland and Wales

WORD
Gweld Atodiad C - Rhestr rhanddeiliaid yr ymgynghoriad as Word(Open in a new window) (16.51 KB)

### England, Northern Ireland and Wales

WORD
Gweld Templed rhybudd alergedd i'w olygu ar gyfer pwynt gwerthu as Word(Open in a new window) (224.6 KB)

### England, Northern Ireland and Wales

WORD
Gweld Templed galw bwyd yn ôl i'w olygu ar gyfer pwynt gwerthu as Word(Open in a new window) (135.46 KB)

## Sylwadau a barn

Dylech anfon eich ymatebion i'r ymgynghoriad hwn at Debbie.Sharpe@food.gov.uk erbyn 4 Chwefror 2019.

## Cyhoeddi crynodeb o’r ymatebion

Y bwriad yw cyhoeddi crynodeb o’r ymatebion ar y dudalen hon o fewn tri mis i ddiwedd yr ymgynghoriad. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am sut yr ydym yn trin data a ddarperir mewn ymateb i ymgynghoriadau yn ein hysbysiad preifatrwydd am ymgynghoriadau.

## Mwy o wybodaeth

Mae’r ymgynghoriad hwn wedi’i baratoi yn unol ag egwyddorion ymgynghori llywodraeth y DU. Os oes Asesiad Effaith wedi’i lunio, bydd wedi’i gynnwys yn y dogfennau ymgynghori. Os na ddarparwyd Asesiad Effaith, nodir y rheswm dros hynny y ddogfen ymgynghori.